

## CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

### Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun y 10fed o Chwefror 2025 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.

Presennol; Cyng. Elwyn Evans, Miriam Webb, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Eleri Puw, Dylan Jarman, Robert D Jones, Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Elwyn Evans. Roedd ymddiheuriad gan Cyng Steve Lewis.
2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg o Ionawr ar gynnig Cyng. Gwynedd Roberts a'l eilio gan Cyng Eleri Puw.**

#### 4. Materion yn codi

##### a) Materion Prifyrdd/llwybrau.

Adroddwyd ymateb i'r ymholiadau ers cyfarfod diwethaf.

Adroddodd Cyng Gwynedd Roberts ei fod wedi edrych yn fanwl ar y llwybrau lle roedd y Cyngor Cymuned yn talu am gael eu cynnal a chadw. Adroddwyd sawl sefyllfa lle roedd angen gwaith, a diolchwyd yn fawr iawn iddo.

- Rhif 33 – Rhiwerfa i Tancoed Ucha – llanast coed
  - Rhif 5 – Gamallt i Rhiwlas – angen torri brwyn/afon yn erydu
  - Rhif 10 – Bodilan Fach – angen arwydd
  - Rhif 19 – Nantgwernol – coed i lawr
  - Rhif 43 – angen agor ffosydd/tocio canghennau
  - Rhif 1 – coed angen eu clirio
- b) **Rheilffordd Talyllyn/Safle Treftadaeth** – nodwyd atebion Elin William a Lucy Thomas. Roedd dyddiad cau yr holiaduron wedi ymestyn i 28 Chwefror. Byddai'r Clerc yn ymholi ymhellach am y diweddaraf gyda chyfarfod cyhoeddus ayyb
- c) **Coeden yn difrodi wal** yn Abergynolwyn – nid oedd diweddarriad. Ynglyn a coeden ym mynwent Llanfihangel y Pennant, awgrymwyd cael gair gyda Rhydian Roberts o'r Parc Cenedlaethol.
- d) **Archwiliad y cae chwarae gan ROSPA** – nodwyd ymatebion y tri enw a roddwyd gerbron. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda GL Jones Playgrounds i weld a allent ymweld i roi amangyfrif.
- e) **Gwaith ym mynwent Y Fedw Abergynolwyn.**

Nododd y Clerc fod Kevin Jones wedi ei ffonio, ac y byddai y gwaith yn cychwyn wythnos y 17eg o Chwefror.

- f) **Llythyr Liz Saville Roberts AS** - roedd copi wedi ei ddanfon allan i bob Cynghorydd 14.01.25. Roedd angen danfon Liz i ddweud am ddiffygion signal symudol a rhyngrywd.

Yn y cyswllt hwn, nodwyd gydymdeimlad dwysaf â theulu y diweddar Dafydd Elis Thomas. Hefyd roedd ein cydymdeimlad gyda teulu y diweddar Janet Jones, cyn athrawes yn Abergynolwyn a Bryncrug

- g) **Asedau y Cyngor** – nodwyd bwysigrwydd ymweld/archwilio asedau y Cyngor Cymuned yn rheolaidd, ac o leiaf yn flynyddol, ac aethpwyd drwy yn rhestr. Cytunodd Cyng Emrys Thompson, Elwyn Evans a Miriam Webb i ymweld
- h) **Cost y Ganolfan** – cadarnhawyd neges gan Cyng Steve Lewis yn cadarnhau mai cost ystafell fach fyddai yn cael ei godi ar y Cyngor Cymuned.

## 5. Materion Cynllunio

Cadarnhwyd nad oedd unrhyw faterion ers y cyfarfod diwethaf.

## 6. Materion Cyllid.

- a) Cyfrifon 2023-24 - nododd y Clerc ei fod yn parhau i ddisgwyl ateb terfynol gan yr Archwilydd Allanol.
- b) Anfonebau;

Ar gynnig Cyng Robert Jones a'i eilio gan Cyng Emrys Thompson, cytunwyd i dalu y canlynol;

- **Anfoneb Un Llais Cymru** – (cwrs Cyng Miriam Webb) £40.

.....

**Cydnabyddiaeth flynyddol Cynghorwyr** – cafwyd datganiad gan bawb, a dosbarthwyd y sieciau am £156 i bob Cynghorydd. Byddai'r datganiadau yn cael eu rhoi ar y wefan

- c) Ceisiadau am arian - cytunwyd ar gynnig Cyng Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Miriam Web fel a ganlyn
- **Yr Urdd – cais gan Bwyllgor Rhanbarth Meirionnydd** – £100. Nodwyd fod y fantolen wedi ei ddanfon i bawb ymlaenllaw.
  - **Theatr Bara Caws** – pendefynwyd peidio cyfrannu.
  - **Ambiwlans Awyr Cymru** – adroddwyd nad oedd ymateb i'r Adolygiad Barnwrol. Penderfynwyd gadael y mater tan tro nesaf.

## 7. Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)

Derbyniwyd adroddiad llawn gan Cyng Beth Lawton, gan nodi y canlynol;

- Sefyllfa cau y ffordd yn Friog dros gyfnod gwelliannau
- Diweddaraf Ysbyty Tywyn, a bod cyfarfodydd misol yn parhau
- Cwyn am ddwr i'r caeau yn Maesypandy – a oedd ar y rhaglen waith
- Codi trethi Gwynedd 8.66% - i'w gadarnhau

## 8. Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.

Nid oedd adroddiad ganddo y tro hwn.

## 9. Gohebiaeth.

- a) **Materion mynwent Llanfihangel y Pennant** - nodwyd fod £1697 i law gan Ben Thomas, Trefnwr angladdau yn dilyn claddu llwch y diweddar Charlie Hutchinson
- b) **Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru** – nid oedd rhain i law eto.
- c) Nodwyd gohebiaeth gan Sian Gwenllian AS ynglyn a'r ymgyrch i sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mangor. Cytunwyd i ddanfon hyn i Jeremy Miles AS, Ysgrifennyd lechyd, ar gynnig Robert D Jones a'i eilio gan Miriam Webb.
- d) Nodwyd ohebiaeth y Parc Cenedlaethol ynglyn a chadarnhau cyfarwyddyd Erthygl 4, fyddai yn dod i rym ar y 1af o Fehefin.
- e) Nodwyd ohebiaeth 'Cylch yr Iaith' ynglyn a chefnogi argymhellion Comisiwn Cymunedau Cymraeg, a chytunwyd yn unfrydol i ddanfon i Mark Drakeford AS, Ysgrifennyd dros Gyllid a'r Gymraeg. Cynigiwyd hyn gan Cyng Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Robert Jones

## 10. Unrhyw fater arall

- Nodwyd fod cerbyd a carafan yn parcio tymor hir ar Heol Llanegryn. Gwelwyd fod angen cael lluniau, a rhoi hyn ar agenda y cyfarfod nesaf.
- Adroddwyd fod yna gwynion am ansawdd wr yn Abergynolwyn, sef bod yna arogl / blas drwg arno. Roedd hefyd gwynion am y sistem garthffosiaeth. Gwelwyd y dylid pasio y sylwadau yma ymlaen i Dwr Cymru, mor fuan a phosib, neu cysylltu gyda Swyddfa Mabon ap Gwynfor AS.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN NOS LUN  
10fed Mawrth 2025 , 7.00y.h.**

---

## LLANFIHANGEL Y PENNANT COMMUNITY COUNCIL

Minutes of a meeting of the Council held on Monday evening the 10th of February 2025 at 7.00pm in the Ganolfan, Abergynolwyn.

Present; Cllr. Elwyn Evans, Miriam Webb, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Eleri Puw, Dylan Jarman, Robert D Jones, Cllr Beth Lawton (Gwynedd Council) and Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Elwyn Evans. There was an apology from Cllr Steve Lewis.

2. It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on matter on the Agenda.

3. The minutes of the meeting held on the 13th of January were confirmed on the proposal of Cllr. Gwynedd Roberts and seconded by Cllr Eleri Puw.

4. Matters arising

a) Highways/pathways issues.

A response to the inquiries since the last meeting was reported.

Cllr Gwynedd Roberts reported that he had looked in detail at the paths where the Community Council was paying for maintenance. Several situations were reported where work was needed, and he was thanked very much.

- Number 33 – Rhiwerfa to Tancoed Ucha – trees needed clearing
- No. 5 – Gamallt to Rhiwlas – need to cut a rush/eroding river
- Number 10 – Bodilan Fach – need a sign
- Number 19 – Nantgwernol – trees down
- Number 43 – trenches need to be opened/branches trimmed
- Number 1 – trees needing to be cleared

b) Talyllyn Railway/Heritage Site - the answers of Elin William and Lucy Thomas were noted. The closing date for the questionnaires had been extended to 28 February. The Clerk would inquire further about the latest with a public meeting etc

c) A tree damaging a wall in Abergynolwyn - there was no update. Regarding a tree in Llanfihangel y Pennant cemetery, it was suggested to have a word with Rhydian Roberts from the National Park.

d) Inspection of the playing field by ROSPA - the responses of the three names put forward were noted. The Clerk was asked to contact GL Jones Playgrounds to see if they could visit to give an estimate.

e) Work at Y Fedw Abergynolwyn cemetery.

The Clerk noted that Kevin Jones had phoned him, and that the work would start the week of the 17th of February.

f) Liz Saville Roberts MP's letter - a copy had been sent out to all Councilors 14.01.25. Liz needed a response to report mobile and internet signal problems.

In this connection, deepest sympathy was expressed to the family of the late Dafydd Elis Thomas. Our condolences also went to the family of the late Janet Jones, a former teacher in Abergynolwyn and Bryncrug

g) The Council's assets - the importance of visiting/inspecting the Community Council's assets regularly, and at least annually, was noted, and a list was made. Cllr Emrys Thompson, Elwyn Evans and Miriam Webb agreed to visit

h) Cost of the Ganolfan - a message from Cllr Steve Lewis was confirmed confirming that the cost of a small room would be charged to the Community Council.

## 5. Planning Matters

It was confirmed that there were no issues since the last meeting.

## 6. Finance Matters.

a) Accounts 2023-24 - the Clerk indicated that he was still awaiting a final answer from the External Auditor.

b) Invoices;

On the proposal of Cllr Robert Jones and seconded by Cllr Emrys Thompson, it was agreed to pay the following:

- One Voice Wales invoice – (Cllr Miriam Webb's course) £40.
- .....

Councillors' annual remuneration - a statement was made by everyone, and the checks for £156 were distributed to each Councillor. The statements would be put on the website

c) Requests for money - Cllr Emrys Thompson's proposal was agreed and seconded by Cllr Miriam Web as follows

- The Urdd - request from the Meirionnydd Regional Committee - £100. It was noted that the balance sheet had been delivered to everyone in advance.
- Theatr Bara Caws – it was decided not to contribute.
- Cymru Air Ambulance - it was reported that there was no response to the Judicial Review. It was decided to leave the matter until next time.

#### 7. Councilor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

A full report was received by Cllr Beth Lawton, stating the following;

- Road closure situation in Friog over the period of improvements
- Ysbyty Tywyn latest, and that monthly meetings continue
- Complaint about water to the fields in Maesypandy - which was on the work programme
- Raising Gwynedd's taxes by 8.66% - to be confirmed

#### 8. Report of Cllr. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

He had no report this time.

#### 9. Correspondence.

- a) Llanfihangel y Pennant cemetery matters - it was noted that £1697 was received by Ben Thomas, Funeral Director following the burial of the ashes of the late Charlie Hutchinson
- b) Un Llais Cymru training dates - these were not yet available.
- c) Correspondence from Sian Gwenllian MP regarding the campaign to establish a Dental School in Bangor was noted. It was agreed to send this to Jeremy Miles MS, Health Secretary, on the motion of Robert D Jones and seconded by Miriam Webb.
- d) The National Park's correspondence regarding the confirmation of Article 4 instruction, which would come into force on the 1st of June, was noted.
- e) Correspondence from 'Cylch yr Iaith' regarding supporting the recommendations of the Welsh Communities Commission was noted, and it was unanimously agreed to deliver to Mark Drakeford MP, Secretary for Finance and the Welsh Language. This was proposed by Cllr Emrys Thompson and seconded by Cllr Robert Jones

#### 10. Any other matter

- It was noted that a vehicle and a caravan were parked long term on Llanegrynn Road. It was seen that it was necessary to get pictures, and put this on the agenda of the next meeting.
- It was reported that there were complaints about the quality of water in Abergynolwyn, namely that it had a bad smell / taste. There were also complaints about the sewage system. It was seen that these comments should be passed on to Dwr Cymru, as soon as possible, or contact the Office of Mabon ap Gwynfor MS.

DATE OF NEXT MEETING; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN MONDAY 10th March 2025, 7.00 p.m.

